



Bore Sul, Mawth 15fed 2020



Croeso cynnes i bawb y bore 'ma, a diolch yn arbennig i Gareth a Rhiannon Humphreys am drefnu'r oedfa pob oed.

Yr Wythnosau Nesaf

Mawrth 22ain - y Parchg. Gethin Rhys

Mawrth 29ain - Delyth Prys, Bangor (roedd y Delyth Beasley ifancach yn aelod yn y Tabernacl yn y 1970au)

Ebrill 5ed Sul y Blodau - Efail Isaf ac Eirian

Gwener y Groglith (10fed) oedfa rhyng-eglwysig yn Salem Tonteg

Ebrill 12fed - Sul y Pasg gyda'r Parchg. Aled Edwards

Ebrill 19 - Sul pob oed

Ebrill 26 - y Parchg. Gethin Rhys

Mai 3ydd - Pentrefi Meisgyn a Groesfaen

Mai 10fed - Sul Cymorth Cristnogol

Mai 17eg - Sul Pob Oed (Heulyn a Catrin)

Mai 24ain - Eirian Rees

Mai 31 - Allan James

Mehefin 7ed - Pentrefi Llantrisant, Llanharan, Pontyclun a Thonyrefail

CYLCH CADWGAN

8.00pm Nos Wener 3ydd Ebrill 2020

HEIDDWEN TOMOS

Dramodydd ac Awdures

Yn y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

DATHLIADAU TAB150

Sadwrn, 2/5/2020 Bydd Pens a Penri yn cynnal taith gerdded i olrhain hanes sefydlu'r capel a **Pnawn Gwener 8/5 Gŵyl y Banc** - Dr Gareth Edwards yn cynnal sesiwn am ei atgofion o gael ei fagu yn Efail Isaf yn y 1940/50au

Cymorth Canser MacMillan

Te Prynawn Cymreig, Dydd Sadwrn, 21 Mawrth,

2.30 am 3.00. Eglwys All Hallows Meisgyn.

£10 y tocyn. Enwau i Luned Davies Scott



Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 17 Mawrth. Rhowch wybod i Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) neu unrhyw Gyfarwyddwr **erbyn nos Lun 16 Mawrth** os hoffech godi unrhyw fater i'w drafod gan y Bwrdd.

Cofrestru Priodasau

Rydym yn chwilio am aelod newydd i ymuno â'r tîm sy'n gyfrifol am gofrestru priodasau yn y Tabernacl. Os hoffech gael rhagor o fanylion am oblygiadau'r swydd yna gallwch holi naill ai gyda Rhys Llewelyn rhysllew54@hotmail.co.uk neu Helen Middleton basshelen25@hotmail.com

ELUSENNAU 2020

Dyma'r elusennau dderbyniwyd gan Gyfarfod Blynyddol yr eglwys ar gyfer casgliad yr amlenni brown eleni: Gofalwyr Ifanc RhCT
Adref. Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru a Cwtch

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan, :

carolinerees2@hotmail.com

neu decstio Caroline ar 07539452130

LLIFOGYDD: APÊL Y TABERNAACL

Mae ein Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn eich gwahodd i gyfrannu mewn amlen wedi'i labelu "Llifogydd" drwy gasgliad yn ein hoedfaon dros yr wythnosau nesaf, er mwyn i ni fod o gymorth i'r bobl sy'n ceisio ail-afael yn eu bywydau.

Bydd John yn sicrhau bod ein rhoddion yn cyrraedd cronfa swyddogol gydnabyddedig fydd yn trin yr arian yn y ffordd decaf bosib. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd eraill o helpu ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau o'ch eiddo. johnllewt@hotmail.com
ann.pentyrch@btinternet.com

Cewch fwy o fanylion gan John yn yr oedfa bore 'ma.

Cymanfa Ganu
Capel Salem Tonteg
Sadwrn 21ain Mawrth am 2 yp



Eglwys Masnach Deg

Rydym wedi cofrestru fel Eglwys Masnach Deg.

Golyga hyn ein bod wedi ein hymrwymo i:

a. Ddefnyddio te a choffi Masnach Deg

b. Symud ymlaen at ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg megis siwgr, bisgedi, siocled a ffrwythau;

c. Hyrwyddo Masnach Deg yn ystod Pythefnos Masnach Deg a gynhelir eleni rhwng dydd Llun 24 Chwefror a dydd Sul 8 Mawrth.

Gweddi mewn Pandemic

I'r rheiny ohonom sydd yn mynd i ddiodeff o anghyfleustra a chwyno am hynny, bydded i ni gofio'r rhai sydd â'u bywydau mewn perygl.

I'r rheiny ohonom sydd â'r fraint o fod â risg isel, bydded ini gofio'r rhai mwyaf bregus.

I'r rheiny ohonom sydd yn gallu gweithio o'n cartrefi, bydded ini gofio'r rhai sydd yn gorfod dewis rhwng gwarchod eu hiechyd a thalu'r rhent.

I'r rheiny ohonom sydd yn gallu bod yn hyblyg wrth ofalu am ein plant pan fydd yr ysgolion yngháu, bydded ini gofio'r rhai sydd heb ddewis.

I'r rheiny ohonom sydd yn gresynnu canslo gwyliau bydded ini gofio am yr rhai sydd heb le i fynd

I'r rhai sydd yn gallu fforddio cario colled ariannol, bydded i ni gofio'r rhai sydd â dim yn sbar.

I'r rheiny ohonom fydd yn hunan-eithrio yn ein cartrefi, bydded i ni gofio'r rhai heb gartrefi. Wrth i ofn gydio yn ein gwlad, bydded i ni ddewis cariad.

Mewn cyfnod pan na allwn gofleidio'n gilydd, bydded i ni ddod o hyd i ffyrdd i ddangos cofleidiad cariadus Duw am ein cymdogion.

Amen.

Gweddi anhysbys, o safwe catholig.



www.tabernacl.org



Mae Cyngor RhCT yn gofyn i bobl gofrestru fel gwirfoddolwyr er mwyn helpu gyda llanast y llifogydd ar
01443 425368

EGLWYS DEMENTIA - GYFEILLGAR

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, dan arweiniad Rhys Llewelyn, yn dal i drafod ac ymgynghori er mwyn gwireddu hyn, gan ei bod yn hanfodol sicrhau cyngor proffesiynol, adnabod prosiectau sy'n weithredol yn yr ardal a derbyn arweiniad strategol Undeb yr Annibynwyr. Mae cynnig cefnogaeth deilwng ac addas i deuluoedd sy'n ymdopi â'r salwch creulon yma yn hollbwysig. Rydyn ni'n ystyried trefnu te pawns yn Y Ganolfan, rhyddhau aelodau'r teulu am awr neu ddwy, neu gynnig mewnbwn Cymraeg i brosiectau sydd eisoes yn bodoli.

Os ydych chi'n awyddus i gyfrannu i'r trafodaethau mae croeso cynnes ichi yn ein cyfarfod nesa, nos Fawrth, 31 Mawrth am 7.30 yn Y Ganolfan.



MERCHED Y TAB

Dydd Mercher, 25 Mawrth, 12.30 ar gyfer 1.00. Cinio **Gwyl Ddewi yn Caesar's Arms**.
[Enwau i Beti Treharne]

Dydd Mercher 24 Mehefin ymweliad i'r "Sied" Nantgaredig. Bydd Lisa Fearn yn paratoi "demo" a wedyn, bydd pryd o fwyd, 3 cwrs, am £25 y pen. Enwau i Gwen Thomas a blaendal £10 cyn gynted â phosib. Bydd pris y bws yn ychwanegol.



www.cristnogaeth21.cymru

